

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant - Plant yng Nghymru

Dydd Mawrth 30 Mehefin 2015

Tŷ Hywel

Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Julie Morgan AC, sy'n cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant, bawb i'r cyfarfod, a chyflwynodd y siaradwyr.

Cyflwyniad

Rhoddodd **Dr Sarah Jones** o Iechyd Cyhoeddus Cymru a **Karen McFarlane**, sef swyddog diogelwch plant Plant yng Nghymru tan fis Mehefin 2015, gyflwyniad ar faterion a phryderon sy'n gysylltiedig ag anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc **yng Nghymru**.

Y sefyllfa bresennol

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae anafiadau anfwriadol yn fater iechyd cyhoeddus pwysig. Anafiadau anfwriadol yw'r prif beth sy'n achosi anafiadau angheuol a difrifol ac anafiadau sy'n achosi anabledau ymysg plant a nhw yw'r prif beth sy'n achosi annhegwch iechyd.

Mewn adroddiad DU-gyfan yn 2013, nodwyd bod gan Gymru'r gyfradd uchaf o farwolaethau o ganlyniad i anafiadau ymhlith plant ar draws y pedair gwlad¹. Mae Cymru hefyd yn cymharu'n wael o fewn Ewrop, ac mewn asesiad Ewropeaidd o 31 o wledydd a gynhaliwyd yn 2012, daeth Cymru yn 24^{ain} o ran ymdrechion i atal anafiadau anfwriadol, tra ddaeth Lloegr yn wythfed a'r Alban yn 11eg.²

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae anafiadau anfwriadol yn ei chael ar fywydau plant ac yn *Ein Dyfodol Iach (2009)* nododd bod lleihau damweiniau ac anafiadau yn un o'i deg blaenoriaeth i'w gweithredu. Yn 2013, ymrwymodd Llywodraeth Cymru unwaith eto i atal anafiadau anfwriadol ac yn ei chynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant, *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair*, (2013) nododd ei bod yn:

- *arwain y ffordd wrth atal anafiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar drwy ystyried argymhellion yr adroddiad Baich Anafiadau yng Nghymru (GIG, 2012) a Cherdyn Cofnodi Diogelwch Plant Ewrop er mwyn lleihau nifer y damweiniau ymhlith plant;*
- *datblygu strategaeth atal anafiadau i blant ar gyfer Cymru gyfan wedi'i chydgysylltu ar draws pob gwasanaeth a lleoliad er mwyn lleihau'r risg o farwolaeth ymhlith plant a niwed i blant o ganlyniad i anaf.*

Trwyddedau gyrru graddedig

Canolbwyntiodd Dr Sarah Jones ar fanteision Trwydded Gyrru Graddedig, system sy'n caniatáu i yrwyr newydd ddatblygu eu sgiliau a phrofiad gyrru yn raddol, mewn cyfnodau sydd wedi'u diffinio'n dda ac mewn ffordd strwythuredig. Mae gyrrwyr ifanc a dibrofiad mewn perygl uchel o ddamweiniau difrifol ac angheuol, am amryw o resymau, gan gynnwys gorhyder ymhlith gyrrwyr ifanc, diffyg profiad, a thuedd i gymryd risgiau. Mae Trwyddedau Gyrru Graddedig yn mynd i'r afael â hyn drwy

ddarparu isafswm hyd y cyfnod y dylai gyrwyr ifanc yrru o dan oruchwyliaeth a chyfyngu ar y sefyllfaoedd risg uchaf, megis gyrru gyda'r nos, ar gyfer gyrwyr sydd newydd gymhwyso.

Ym Mhrydain, amcangyfrifir y gallai Trwyddedau Gyrru Graddedig atal dros 400 o farwolaethau ac anafiadau difrifol bob blwyddyn, ac achub £200 miliwn i'r economi bob blwyddyn drwy atal damweiniau. (Trwyddedau gyrru graddedig: dadansoddiad rhanbarthol o arbedion anafusion posibl ym Mhrydain Fawr, Sefydliad y RAC, 2014) ¹. Mae ymchwil yn awgrymu y byddai'r cyhoedd yn derbyn system o'r fath, yn enwedig os byddai'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â gwaith cyfathrebu da yn esbonio manteision amddiffyn gyrwyr ifanc rhag y sefyllfaoedd lle maent yn wynebu'r perygl mwyaf. Canfu arolwg gan Sefydliad yr RAC bod dwy ran o dair (68%) o oedolion yn y DU, ac 41% o yrrwyr ifanc, yn cefnogi cyflwyno trwyddedau gyrru graddedig².

Plant dan 5 oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf

Amlinellodd Karen McFarlane y materion sy'n wynebu plant o dan 5. Tra bod pob plentyn mewn perygl o anafiadau anfwriadol, plant yn y grŵp oedran blynyddoedd cynnar sy'n fwyaf tebygol o fynychu adrannau achosion brys o ganlyniad i anafiadau anfwriadol.

Yng Nghymru, mae tua 65,500 o blant (0-4 oed) yn mynychu adrannau achosion brys bob blwyddyn. Mae 43% o'r achosion hyn yn anafiadau ³.

Pob ymweliad ag adran argyfwng ymhlith plant rhwng 0 a 4 oed (pob achos) 65,500

Ymweliadau sy'n gysylltiedig ag anafiadau ymhlith plant rhwng 0 a 4 oed 33,300

Ymweliadau sy'n gysylltiedig ag anafiadau anfwriadol ymhlith plant rhwng 0 a 4 oed 28,700

Mae anafiadau anfwriadol yn cynrychioli 86% o'r holl ymweliadau o ganlyniad i anafiadau. Oherwydd data/codio o ansawdd gwael, credir bod y ffigwr hwn yn uwch na'r hyn a adroddwyd.

Yn y grŵp oedran hwn, mae anafiadau anfwriadol yn cynrychioli 24% o'r holl ymweliadau ag adrannau brys sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, ni waeth beth yw achos. O'r rhai sy'n ymweld ag adrannau brys o ganlyniad i anaf, mae tua 10% yn cael eu derbyn i'r ysbyty.

O ran plant dan 5 oed, mae'r rhan fwyaf o anafiadau anfwriadol yn digwydd yn y cartref ac maent yn anafiadau rhagweladwy ac ataliadwy.

Amddifadedd ac annhegwch

Mae llawer o dystiolaeth am y gydberthynas rhwng amddifadedd ac anafiadau anfwriadol. Yng Nghymru, mae 27% o anafiadau wedi digwydd i blant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, o'i gymharu â'r ffaith bod dros 52% o'r anafiadau wedi digwydd i blant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ar gyfer mathau penodol o anafiadau, mae'r annhegwch hwn yn cynyddu'n ddramatig.

¹ (Trwyddedau gyrru graddedig: dadansoddiad rhanbarthol o arbedion anafusion posibl ym Mhrydain Fawr, Sefydliad y RAC, 2014)

² [Mae dwy ran o dair yn cefnogi trwyddedau gyrru graddedig i wella diogelwch gyrwyr ifanc](#), Sefydliad yr RAC, 2014

Er enghraifft, mae plant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig 37 gwaith yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i dân yn y cartref na phlant o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.⁴

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dangos bod anafiadau yn arwain at yr anghydraddoldebau mwyaf. Mae'r ffactorau risg yn cynnwys mwy o brofiad o orlenwi, amgylcheddau peryglus, diffyg offer diogelwch, unig rieni, diweithdra, oedran ifanc y fam a lefel addysg isel ymhlith mamau.⁵

Effaith a chost anafiadau anfwriadol

Mae effeithiau anafiadau anfwriadol yn arwyddocaol ac yn gosod beichiau cymdeithasol ac economaidd enfawr ar blant, eu teuluoedd, y boblogaeth ehangach a gwasanaethau yng Nghymru. Gall anafiadau arwain at amrywiaeth o ganlyniadau niweidiol, gan gynnwys llai o alluoedd corfforol, llai o gyrhaeddiad addysgol, anawsterau emosiynol, gwybyddol ac ymddygiadol, a phlant sy'n fwy tebygol o gael eu bwlio neu eu heithrio'n gymdeithasol.^{6,7}

Mae effaith ariannol anafiadau yn cynyddu'n sylweddol ymhlith y rhai sy'n byw mewn tlodi ac anfantais. Mae'r baich ariannol o deithio i'r ysbyty, apwyntiadau cleifion allanol, costau gofal plant ychwanegol ar gyfer brodyr a chwiorydd ac absenoldeb di-dâl o gyflogaeth yn gallu bod yn sylweddol i deuluoedd sydd yn byw ar gyllideb sydd eisoes yn gyfyngedig.

Mae anafiadau anfwriadol yn faich ariannol ar Lywodraeth Cymru yn sylweddol. Ar gyfer plant 0-4 oed yn unig, mae'r gost ariannol ar gyfer ymweliadau ag adrannau brys yn £3.2 miliwn bob blwyddyn ac mae cost bellach o £3.3 miliwn ar gyfer y rhai a dderbynnir i'r ysbyty, sy'n cyfanswm o £6.5 miliwn y flwyddyn.^{3,8} Dylid nodi bod y rhain yn gostau meddygol uniongyrchol yn unig ac nid ydynt yn cyfrif anafiadau difrifol neu driniaethau ychwanegol ac arbenigol. Er enghraifft, amcangyfrifir bod y driniaeth feddygol gychwynnol ar gyfer un achos o sgaldio mewn bath yn costio dros £172,000 (British Burns Association) ac amcangyfrifir mai £4.9 miliwn yw costau gydol oes ar gyfer un anaf difrifol i'r pen.⁹

Ymyriadau effeithiol

Yn 2010, gosododd NICE ganllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal anafiadau anfwriadol yn y cartref ymhlith plant (PH 29 a PH30).¹⁰ Dyma drosolwg o'r argymhellion hyn:

- Ffocws strategol ac ymrwymiad gan y Llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol
- Cydlynwyr atal anafiadau cenedlaethol a lleol
- Datblygu a hyfforddi'r gweithlu plant
- Datblygu safonau proffesiynol a chwricwla
- Darparu hyfforddiant priodol
- Darparu canllawiau ar asesiadau diogelwch yn y cartref a'u gweithredu
- Datblygu rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, cymorth ac arweiniad

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth am y materion a godwyd yn y cyflwyniad a nodwyd pryderon yn ymwneud â'r materion a ganlyn.

- Pryderon am nifer y plant a phobl ifanc sy'n profi anafiadau anfwriadol a sut y gall y niferoedd hyn gael eu lleihau;

- Pryder nad oes cyllid ar gael yng Nghymru i gydlynu'r gwaith, fel y mae yng ngweddill y DU; a
- Gan yr ystyrir bod atal anafiadau anfwriadol yn ddarpariaeth statudol, nid oes modd i geisio cyllid gan sefydliadau elusennol i ariannu'r gwaith yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

1. *Hardelid P, Davey J, Dattan N, Gilbert R, et al. (2013) Child Deaths Due to Injury in the Four UK Countries: A Time Trends Study from 1980 to 2010. PLoS One 8(7).*
2. *MacKay M and Vincenten J. Child Safety Report Card 2012 – Wales. Birmingham: Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, Eurosafe 2012.*
3. *EDDS. Set Ddata Adran Achosion Brys; CAPIC, Prifysgol Abertawe*
4. *Better Safe Than Sorry, Preventing unintentional injury to children (2007). Adroddiad Cenedlaethol Iechyd. Y Comisiwn Archwilio*
5. *World report on child injury prevention. Sefydliad Iechyd y Byd. Geneva 2008.*
6. <http://www.ditchthelabel.org/uk-bullying-statistics-2014/> *Arolwg blynyddol o fwlio 2014*
7. *Gabbe BJ, Brooks C, Demmler J, Macey S, Hyatt MA, Lyons RA, The association between head injury and academic performance - tystiolaeth o astudiaeth e-garfan o'r boblogaeth. JECH 2014, doi:10.1136/jech-2013-203427*
8. *Reference costs 2012-13. Department of Health. Tachwedd 2013*
9. *Yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant. Ar gael yn: <http://www.makingthelink.net/costs-head-injuries>*
10. *Strategaethau i atal anafiadau anfwriadol ymysg plant a phobl ifanc o dan 15 oed. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) Canllawiau Iechyd Cyhoeddus 29 a Chyfarwyddyd Iechyd y Cyhoedd 30. Tachwedd 2010)*